YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk

Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor

19/1/18

Annwyl Rieni,

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch o waelod calon i chwi am eich cydweithrediad yn ystod gwaith adeiladu estyniad yr ysgol – mae'r cyfan wedi bod ei werth o yn y diwedd!

Gyda'r gwaith wedi ei orffen, byddwn yn dychwelyd i'n trefniadau gollwng a chasglu plant arferol. Hoffwn eich atgoffa o'r trefniadau isod.

Clwb Gofal Cyn-ysgol / Clwb Brecwast
Rydych eisioes yn ymwybodol o'r trefniadau a'r amseroedd. Rhaid cadw at yr amseroedd yma.

Cynhelir y **clwb gofal cyn-ysgol rhwng 7.50am a 8.15am.**
Os ydych yn dymuno manteisio ar y **Clwb Brecwast**, yna mae'r clwb yn cychwyn am **8.15am** a bydd brecwast yn cael ei weini hyd at **8.30am** - **Ni dderbynnir plant i'r clwb wedi'r amser yma**. Ceir mynediad i'r clybiau yma drwy'r drws yng nghefn y neuadd.

Trefniadau gollwng plant i'r ysgol yn y boreau
Mae goruchwyliaeth ar yr iard yn cychwyn am **8.40am** ble y bydd staff yn goruchwylio ar yr iard. Bydd aelodau o staff wrth y giât ger y drws ffrynt a'r giât mochyn wrth y parc i dderbyn y plant. **Disgwylir i'r rhieni ollwng y plant wrth y giatiau** ac fe wnaiff y staff ar yr iard eu hebrwng i gadw eu bagiau os oes rhaid. Caniateir i rieni y **plant Meithrin yn unig** hebrwng eu plant i'r ystafell gotiau – ni fydd mynediad i'r ysgol. Ar adegau pan fydd hi yn bwrw glaw yn drwm bydd modd i'r plant gael mynediad drwy y drws yng nghefn y neuadd.

Os oes ganddoch negeseuon i'w rhannu â'r athrawon, yna gofynnwn i chi rannu'r negeseuon gyda'r staff wrth y giât neu gyda'r ysgrifenyddes yn y dderbynfa.

Casglu Plant am 3pm a 3.15pm
Yn ôl i'r drefn arferol.
Babanod – Casglu'r plant o'r dosbarthiadau yn y cefn.
Adran Iau – Bydd y plant yn cael eu hebrwng i flaen yr iard.

Dyledion Cinio Ysgol
Mae dyledion yn uchel unwaith eto. Gofynnwn yn garedig i chwi dalu am ginio ysgol bob wythnos. Bydd dyledion yn cael eu cyfeirio i'r Awdurdod yn unol â'r polisi. Er hwylustod i bawb, rydym yn annog rhieni i ddefnyddio ein system talu ar-lein drwy 'Schoolgateway'.

Cytundeb Partneriaeth Rheolaeth Ysgol Parc y Bont ac Ysgol Brynsiencyn
Fel y cawsoch eich hysbysu, ceir Cytundeb Partneriaeth Rheolaeth mewn lle rhwng Parc y Bont ac Ysgol Brynsiencyn y tymor yma ac felly, rwyf yn bennaeth ar y ddwy ysgol. Fel eich bod yn ymwybodol, dyma pryd y byddaf fel rheol ym Mharc y Bont:

Dydd Llun: Bore Dydd Mawrth: Prynhawn Dydd Mercher: drwy'r dydd Dydd Gwener: drwy'r dydd

Mae Mr Rhys Ynyr Jones wedi ei benodi yn Athro â Chyfrifoldeb yr ysgol i ddelio â rhediad o ddydd i ddydd yr ysgol yn fy absenoldeb.

Gwyliau Ysgol

12 - 16 Chwefror 2018 (Hanner-Tymor)
26 Mawrth 2018 – 6 Ebrill 2018 (Gwyliau'r Pasg)
7 Mai 2018 (Calan Mai)
28 Mai – 1 Mehefin 2018 (Hanner-Tymor)

Ysgol yn cau am wyliau Haf ar Ddydd Gwener 20 Gorffennaf 2018.

Diwrnod HMS
Chwefror 9fed 2018

Diolch am eich cydweithrediad parod fel arfer

Yn gywir,

Iwan W Taylor
(Pennaeth)

YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk

Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor

19/1/18

Dear Parents,

First of all, I would like to thank you for your co-operation whilst the contractors were working at the school over the last term – it has all been worth it in the end!

As the work has been completed, we will return to our normal morning and afternoon arrangements. I would like to remind you of the arrangements below.

Pre-School Care Club/ Breakfast Club

You are already aware of the arrangements and times. These times must be adhered to.

The **pre-school care club** is held **between 7.50am and 8.15am.**
If you wish to take advantage of the **Breakfast Club**, the club begins at **8.15am** and breakfast will be served until **8.30am** – **there will be no access to the club after this time**. Access to the Pre-School Care Club/ Breakfast Club is at the back of the hall.

Arrangements for bringing children to school in the morning

Supervision on the yard begins at **8.40am** and there will be one member of staff at the gate by the front door and one at the kissing gate by the park. **Parents are expected to drop the children by the gates** and the staff on the yard will accompany them to keep their bags if necessary. Parents of the **Nursery children only** are allowed to accompany their children to the cloakroom – there will not be access to school. At times when it is raining heavily it will be possible for the pupils to get access through the door at the back of the hall.

Messages to teachers will be passed on by the staff on the yard or by the secretary in reception.

Collecting Children at 3pm & 3.15pm

We will return to our normal arrangements.
Infants – Please collect the children from the classes at the back.
Juniors – The children will be escorted to the front of the yard.

School Meals Debt

Debts are high again. We kindly ask you to pay for school meals every week. We will refer any debts to the Authority in accordance with the policy. We encourage parents to use our online payments system on 'Schoolgateway'.

Ysgol Parc y Bont and Ysgol Brynsiencyn Management Partnership Agreement

As you know, there is a Management Partnership Agreement in place between Parc y Bont and Ysgol Brynsiencyn this term and therefore I am the Headteacher of both schools. So that you are aware, I will usually be at Ysgol Parc y Bont during the following days:

Monday: AM Tuesday: PM Wednesday: All day Friday: All day

Mr Rhys Ynyr Jones has been appointed 'Teacher with Responsibility' at the school dealing with day to day running of the school in my absence.

School Holidays

12 - 16 February 2018 (Half Term)
26 March 2018 – 6 April 2018 (Easter Holidays)
7 May 2018 (May Day)
28 May – 1 June 2018 (Half Term)
Schools close for the Summer holidays on Friday 20 July, 2018.

INSET day
February 9th 2018

Thank you for your co-operation.

Yours sincerely,

Iwan W Taylor
(Headteacher)